

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofrestru Prynwyr a Gwerthwyr Pysgod: Cwestiynau Cyffredin

## 1 Beth yw pysgod gwerthiant cyntaf?

Ystyr ‘pysgod gwerthiant cyntaf’ yw pysgod a physgod cregyn o’r DU neu, tan 1 Ionawr 2020, o gychod pysgota un o wledydd yr Undeb Ewropeaidd, a gynigir i’w gwerthu am y tro cyntaf. Mae hyn yn cynnwys pysgod sy’n llai na’r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS – yn ‘rhy fach’) a ddygwyd i’r lan yn unol â’r rhwymedigaeth glanio (sef y ‘gwaharddiad ar waredu pysgod’).

## 2 Pryd y mae’r gwerthiant cyntaf yn digwydd?

Ystyrir bod y gwerthiant cyntaf wedi digwydd pan fydd perchnogaeth gyfreithiol y pysgod neu’r cynhyrchion pysgodfeydd yn newid o’r cwch sy’n glanio’r pysgod i fusnes, person neu endid cyfreithiol arall. Gallai hynny ddigwydd cyn cytuno ar unrhyw brisiau neu setliad ariannol.

## 3 Pwy gaiff brynu pysgod gwerthiant cyntaf?

Er mwyn prynu pysgod gwerthiant cyntaf o gwch pysgota sy’n dod o’r DU neu’r Undeb Ewropeaidd (yn uniongyrchol neu oddi wrth asiant y cwch), rhaid ichi fod yn brynwr cofrestredig oni bai mai dim ond 25 kg o bysgod y dydd yr ydych yn eu prynu at eich defnydd eich hun. Os felly, nid oes angen ichi gofrestru. Os nad ydych yn prynu pysgod o safle arwerthu dynodedig, nid oes angen ichi gofrestru. Os dim ond oddi wrth fasnachwr neu gyfanwerthwr yr ydych yn prynu pysgod, mae hynny’n ‘ailwerthiant’ (h.y. maent wedi’u prynu o’r blaen) ac nid oes angen ichi gofrestru.

## 4 Beth yw fy nghyfrifoldebau fel Prynwr neu Werthwr Cofrestredig?

Os ydych yn brynwr neu’n werthwr cofrestredig, rhaid ichi:

- sicrhau bod pysgod yn cael eu pwyso cyn eu gwerthu am y tro cyntaf a chadw cofnodion priodol
- cadw cofnod bob tro y byddwch yn gwerthu pysgod, a’i gadw am dair blynedd
- sicrhau bod cofnodion ar gael i’w harchwilio yn y lleoliad hysbysedig
- llenwi ac anfon nodyn gwerthu at Lywodraeth Cymru bob tro y byddwch yn gwerthu pysgod
- anfon nodiadau gwerthu’n electronig os yw trosiant yn fwy na €200k

Er eich bod yn cael anfon nodiadau gwerthu papur os yw’ch trosiant yn llai na €200k, fe’ch anogir i gyflwyno nodiadau gwerthu’n electronig drwy’r ERS pryd bynnag y bo modd.

Bydd angen ichi hefyd gydymffurfio â’r gofynion ar gyfer olrhain pysgod, sy’n cynnwys cludo, pwyso a labelu pysgod. Mae rhagor o wybodaeth am hyn i’w gweld ar wefan gov.uk yma: **www.gov.uk/government/publications/how-to-trace-weigh-and-distribute-fish-products/traceability-and-labelling-information.**

## 5 Pa wybodaeth y dylwn i ei chynnnwys ar nodyn gwerthu?

Rhaid i chi gofnodi'r wybodaeth isod ar eich nodyn gwerthu:

- **Y cod(au) rhywogaeth tair llythyren (cod Alpha-3 y Sefydliad Bwyd ac Amaeth (FAO)) ar gyfer pob rhywogaeth a brynwyd.** Rhaid ichi ddefnyddio'r cod penodol ar gyfer pob rhywogaeth yn hytrach na chod generig. Er enghraifft, dylech ddefnyddio RJC i gofnodi Morgath Ddreiniog ac nid SRX (pob 'morgath'). Mae rhestr o of godau rhywogaethau cyffredin i'w gweld ar wefan gov.uk, yma: **www.gov.uk/government/publications/buyers-and-sellers-of-first-sale-fish-and-submission-of-sales-notes/list-of-common-species-codes-for-fish-landed-in-the-united-kingdom**
- **Yr ardal lle cafodd y pysgod eu dal.** Dyma is-adran neu is-raniad perthnasol y Cyngor Rhyngwladol ar gyfer Archwilio'r Moroedd (ICES), lle cafodd y pysgod eu dal. Mae map o'r ardaloedd hyn i'w weld ar wefan Europa yma: **www.ec.europa.eu/fisheries/sites/fisheries/files/docs/body/fishing_areas_en.pdf**
- **Faint o bob rhywogaeth, yn ôl sut y mae'n cael ei chyflwyno ac yn ôl ei chyflwr.** Rhaid cofnodi'r pwysau mewn cilogramau (kg) ac eithrio pan fo'n ofynnol o dan y rheoliadau ichi gofnodi nifer y pysgod unigol. Mae 'sut y mae'n cael ei chyflwyno' yn golygu sut mae'r pysgod yn cael eu prosesu, e.e. ffiled, yn gyfan etc. Mae'r cyflwr cyflwyno yn golygu sut mae'r pysgod yn cael eu trin, e.e. ffres, wedi rhewi, wedi halltu etc. Os ydych yn prynu neu'n gwerthu nifer o bysgod ar ffurfiau gwahanol, rhaid ichi gofnodi pob ffordd wahanol o'u cyflwyno, a hefyd y cyflwr cyflwyno, ar wahân.
- **Yr wybodaeth safonau marchnata.** Os ydych yn prynu pysgod sy'n dod o dan y safonau marchnata, rhaid ichi nodi sut mae'r pysgod wedi'u didoli a'u graddio yn ôl maint a ffresni.
- **Pris pob rhywogaeth a werthir, a lle bo angen, pris y radd o'r rhywogaeth honno.** Dylai'r pris fod yn yr arian cyfred a ddefnyddiwyd wrth werthu.
- **I ble y bydd pysgod a dynnwyd yn ôl yn mynd.** Os ydych yn gorff cynhyrchwyr (PO) a'ch bod yn cynnig pysgod gwerthiant cyntaf sy'n cael eu tynnu'n ôl o'r farchnad wedyn, rhaid ichi ddatgan lle byddant yn cael eu storio.
- **Pwysau'r pysgod sydd o dan y MCRS ac i ble y byddant yn mynd.** Rhaid cofnodi hyn mewn kg pwysau net.

## 6 Beth ddylwn i ei wneud ar ôl imi greu nodyn gwerthu?

a) Os yw'ch trosiant ariannol blynyddol mewn cynhyrchion pysgodfeydd gwerthiant cyntaf yn llai na €200 000: rhaid ichi, y prynwr, anfon eich nodyn gwerthu papur neu electronig, at Lywodraeth Cymru ymhen 48 awr ar ôl ichi brynu'ch pysgod.

b) Os yw'ch trosiant ariannol blynyddol mewn cynhyrchion pysgodfeydd gwerthiant cyntaf yn €200 000 neu fwy: rhaid ichi, y prynwr, drosglwyddo'ch nodyn gwerthu electronig, i Lywodraeth Cymru ymhen 24 awr ar ôl ichi brynu'ch pysgod, gan ddefnyddio System Gofnodi Electronig y DU (ERS).

## 7 Pam mae angen imi gofnodi manylion pysgod 'gwerthiant cyntaf' yr wyf yn eu prynu?

Mae deddfwriaeth pysgodfeydd yn datgan ei bod yn ofynnol ichi, brynwr neu werthwr pysgod 'Gwerthiant Cyntaf', gofnodi manylion y prynu a'r gwerthu yn gywir ar nodyn gwerthu. Rhaid ichi gofio bob amser mai cyfrifoldeb y Gwerthwr neu'r Prynwr pysgod gwerthiant cyntaf yw sicrhau bod yr holl wybodaeth a gofnodir yn y nodyn gwerthu yn gywir.

## 8 Sut mae'r wybodaeth yr wyf yn ei darparu yn fy nodiadau gwerthu yn cael ei defnyddio?

Mae'r data yr ydych yn eu darparu yn rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru i wneud y penderfyniadau cywir ar gyfer sicrhau bod stociau pysgod a'r diwydiant bwyd môr yn gynaliadwy yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys rheoli cwotâu, mesurau cadwraeth a dyfarnu arian grant.

Erbyn hyn, mae hefyd yn bwysig ar gyfer allforio pysgod, oherwydd y bydd unrhyw dystysgrifau dal sy'n ofynnol ar gyfer unrhyw gynhyrchion pysgodfeydd a fydd yn cael eu hallforio yn cael eu dilysu drwy'r data a ddarperir gan y pysgotwr a'r masnachwr. Mae'n hanfodol bod y data, gan gynnwys y dyddiad glanio, yn cael eu cofnodi'n gywir ar nodiadau gwerthu.

## 9 Sut mae hyn o fudd imi neu fy musnes?

Mae cyflwyno nodiadau gwerthu cywir i Lywodraeth Cymru yn brydlon yn golygu eich bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd arnoch. Mae gweithredu o fewn y gyfraith a sicrhau bod modd olrhain eich cynnyrch yn llawn yn rhoi hyder i'ch cwsmeriaid ac yn golygu y byddwch yn cael allforio'ch cynnyrch ar ôl i'r DU adael yr UE.

## 10 Beth sy'n digwydd os nad wyf yn cyflwyno nodiadau gwerthu yn gywir neu'n brydlon?

Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cael y data y mae eu hangen arni i sicrhau bod pysgodfeydd yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, ac i ddangos bod eich pysgod yn gynaliadwy a bod modd eu holrhain. Gallai hyn gynnwys ein gallu i ddilysu allforion pysgod i wledydd y GE. Gan fod hwn yn ofyniad cyfreithiol, mae perygl hefyd y gallai camau gorfodi gael eu cymryd yn eich erbyn.

Os nad yw'ch cwestiynau wedi cael eu hateb yn y ddogfen hon, neu drwy fynd i'n gwefan, cysylltwch â ni ar **03000 253500** neu anfonwch e-bost at **milfordhavenfisheriesoffice@llyw.cymru**. Fel arall, gallwch siarad â'ch Swyddog Gorfodi Morol lleol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG41621